# Bwletin y Farchnad HCC

Chwefror 2021

**Yn dilyn cyhoeddi ystadegau masnach mis Rhagfyr gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), mae modd gweld sut bu newid yn y galw am gig oherwydd Covid-19. Allforiwyd llai o gig eidion a chig oen yn ystod 2020, ond roedd sefyllfa porc yn dda o hyd oherwydd y galw o Asia. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y data masnach.**

## CIG EIDION A CHIG LLO

O fis Mawrth ymlaen, roedd cyfaint y cig eidion a chig llo a gafodd ei **allforio** (ffres/wedi rhewi) yn llai na'r flwyddyn flaenorol y rhan fwyaf o'r amser. Er y cafodd 9.5% yn fwy o gig ei allforio ym mis Rhagfyr, cafodd 13.8% yn llai o gig (cyfanswm o 117,000 tunnell) ei allforio yn 2020 nag yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd cyfanswm gwerth yr allforion 17.3% o'r naill flwyddyn i'r llall i £384.1 miliwn. Allforiwyd 20.8% yn llai i'r UE, gyda'r Iseldiroedd yn derbyn 12,000 tunnell yn llai nag yn 2019. Fodd bynnag, allforiwyd 18.7% yn fwy o gig eidion i wledydd y tu allan i'r UE – yn bennaf oherwydd y 1,500 tunnell ychwanegol a allforiwyd i Hong Kong. Fel canlyniad, i Hong Kong y cafodd dros 10% o'r holl gig eidion a allforiwyd ei anfon – mewn cymhariaeth â dim ond 8% yn 2019, a 6.5% yn 2018. Allforiwyd 1.3% yn fwy o offal cig eidion (cyfanswm o bron 50,000 tunnell), ond gostyngodd y gwerth 2.4% i £69.1 miliwn.

**+18.7%**
o'r naill flwyddyn i'r llall

**Cyfaint y Cig Eidion & Chig Llo a Allforiwyd i Wledydd y tu allan i'r UE yn 2020**


Roedd cyfanswm cyfaint y cig eidion a chig llo (ffres/wedi rhewi) a gafodd ei **fewnforio** i'r DU yn ystod 2020 yn 242,800 tunnell (3.3% yn llai nag yn 2019), ac roedd ei werth, hefyd, sef £962.6 miliwn yn ostyngiad o 2.9%. Er y cafodd bron 5% yn llai o'r cig ei fewnforio o Iwerddon yn ystod hanner cyntaf 2020, newidiodd y sefyllfa yn ystod yr ail hanner a dim ond 0.6% oedd y gostyngiad ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mewnforiwyd dros 2,000 tunnell yn llai o'r Iseldiroedd, a chafodd 0.5% yn llai o gig eidion ei fewnforio o Wlad Pwyl.

## CIG DEFAID

Mae ystadegau HMRC yn dangos fod cyfanswm o 88,200 tunnell o gig defaid (ffres/wedi rhewi) wedi cael ei **allforio** o'r DU yn ystod 2020, a bod gwerth yr allforion hyn yn £437.9 miliwn. O'i gymharu â 2019, roedd yr holl gyfaint yn 7.2% (6,850 tunnell) yn llai, er bod y gwerth wedi cynyddu bron 10%. Cafwyd gostyngiad o 10.8% o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfanswm y cyfaint a anfonwyd i'r UE, yn bennaf oherwydd llai o alw gan y sector gwasanaeth bwyd, ynghyd â'r ffaith fod llai o gig defaid wedi cael ei gynhyrchu yn y DU. Ffrainc yw'r farchnad bwysicaf o hyd, gan gymryd 38% o'r holl allforion yn ystod 2020, er bod hyn yn 10.4% yn llai nag yn 2019. Anfonwyd 10.9% yn llai i'r Almaen a 10.3% yn llai i Wlad Belg - er bod hyn yn debyg i'r sefyllfa yn 2018. Allforiwyd 18.3% yn fwy i wledydd yn y Dwyrain Canol, lle cynyddodd gwerth yr allforion 37.4% i gyfanswm o £13.5 miliwn. Yn debyg i'r cynnyrch ffres/wedi rhewi, cafodd 6.9% yn llai o offal ei allforio o'r DU yn ystod y flwyddyn, er bod ei werth wedi cynyddu 3.2%.

Cafwyd gostyngiad hefyd (o 6.6% i gyfanswm o 58,500 tunnell) yn y cig defaid a gafodd ei **fewnforio** gan y DU, er bod ei werth wedi cynyddu ychydig (0.9%) i £314.5 miliwn. Y rheswm pennaf am y gostyngiad oedd bod llai o gig wedi cyrraedd o Seland Newydd. Anfonwyd 2.4% yn llai na'r flwyddyn flaenorol, a golygodd hyn bod 65% o'r holl gig a fewnforiwyd wedi dod o Seland Newydd. Wrth ystyried mewnforion o Awstralia, gwelwn gynnydd o 19% mewn cymhariaeth â 2019 a gostyngiad o 12% mewn cymhariaeth â 2018. O'r holl gig defaid ffres/wedi rhewi a fewnforiwyd, cig defaid wedi'i rewi oedd 31.4% o'r cyfanswm, ac roedd cig defaid ffres yn cyfrif am 68.6% - sef llai na'r 69.2% yn 2019, yn fwy na thebyg oherwydd y newid yn y galw yn sgil pandemig Covid-19.

**Masnach Allforio Cig Defaid y DU**





## PORC


Yn ystod 2020, roedd gwerth y porc a gafodd ei **allforio** o'r DU (£421.7 miliwn) yn agos i 8% yn fwy nag yn 2019. O ran cyfaint, allforiwyd 15,000 tunnell yn fwy o borc yn ystod y flwyddyn, gan ddod â'r cyfanswm i 259,400 tunnell. Cafodd bron 40,000 tunnell yn fwy o borc ei allforio i Tsieina mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Fel canlyniad, roedd Tsieina yn gyfrifol am bron hanner (46.6%) yr holl borc a allforiwyd - 33% yn fwy nag yn 2019, a 19% yn fwy nag yn 2018. Y rheswm am hyn oedd y galw cryf am borc a chig coch arall gan ranbarthau Asia yn dilyn achosion o Glwy Affricanaidd y Moch (ASF). Cafodd 12.9% (12,200 tunnell) yn fwy o offal porc ei allforio yn 2020 nag yn y flwyddyn flaenorol. O ran **mewnforio**, roedd cyfanswm cyfaint y porc a fewnforiwyd yn ystod y 12 mis yn 384,150 tunnell, sef 14.2% (63,800 tunnell) yn llai nag yn 2019 a 16.1% yn llai nag yn 2018. Mae'r gostyngiad sylweddol yn y mewnforion yn ganlyniad i nifer o wledydd yn anfon llai o lawer o'u porc i'r DU. Enghreifftiau o hyn yw'r Iseldiroedd (-14,900 tunnell), Iwerddon (-12,300 tunnell), a Denmarc a Sbaen (-10,000 tunnell yr un). Cafodd 9.2% yn llai o gig moch (gan gynnwys offal) ei fewnforio i'r DU na'r llynedd oherwydd problemau'r sector gwasanaeth bwyd, ynghyd â'r ffaith y cafodd ychydig yn fwy (3%) o borc ei gynhyrchu yn y DU.

**+48.7%**
o'r naill flwyddyn i'r llall

**Cyfaint y Porc a Allforiwyd i Tsieina yn 2020**

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 211.4c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Chwefror, sef 0.1c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad bychan hwn, mae'r prisiau wedi bod yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf mewn cymhariaeth â'r gorffennol. Mae'r pris cyfredol yn 25c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl, a bron 25c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 186.9c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Chwefror, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 371.3c/kg, sef 1.0c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond 39.8c yn uwch nag yn 2020. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 369.3c/kg (1.8c yn is nag yn yr wythnos flaenorol), teirw ifainc yn 351.8c/kg (-2.1c), a'r pris am fuchod difa oedd 250.8c/kg (-0.2c).

Cyfanswm yr holl wartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Ionawr oedd 226,100, sef 5% yn llai nag ym mis Ionawr 2020. Lladdwyd 2.3% yn llai o wartheg dethol (cyfanswm o 166,200) yn ystod y mis a gwelwyd gostyngiad o 3.9% yn nifer y bustych a laddwyd. Lladdwyd 56,400 o wartheg llawn-dwf, sef gostyngiad o 5.8%. Am fod y carcasau, ar gyfartaledd, ychydig yn drymach na'r llynedd, cafodd 76,400 tunnell o gig eidion ei gynhyrchu ym mis Ionawr, sef 3% (2,400 tunnell) yn llai na'r llynedd.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog am ŵyn dethol pwysau byw yn y marchnadoedd da byw wedi bod yn cynyddu o wythnos i wythnos ac mae'n cymharu'n dda â'r llynedd. Yn yr wythnos yn diweddu 20 Chwefror, roedd y pris cyfartalog yn 277.9c/kg, sef 5.3c yn uwch nag oedd yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn 41.3c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2020, a bron 83c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 105.0c/kg). Y pris cyfartalog am famogiaid difa yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd £74.30 y famog - £3.70 yn uwch na'r wythnos flaenorol, ond £1.10 yn is na'r wythnos gyfatebol yn 2020. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 609.1c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Chwefror, sef 77.1c yn uwch nag yn 2020.

Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU ym mis Ionawr oedd 929,300, sef 20.3% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 18.2% yn llai o ŵyn dethol na'r llynedd (cyfanswm o 850,300), a lladdwyd 38.0% yn llai o famogiaid difa a hyrddod (cyfanswm o 79,000). Lladdwyd llai o ddefaid difa ym mis Ionawr nag mewn unrhyw fis ers mis Mawrth 2001. Mae'r gostyngiad yn nifer yr holl ddefaid a laddwyd yn cael ei adlewyrchu ym mhwysau'r cig defaid a gynhyrchwyd, sef 19,200 tunnell; mae hynny'n 20.6% (5,000 tunnell) yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Cynnyrch Porc yn y DU**

## MOCH

Parhau i ostwng, i mewn i fis Chwefror, wnaeth prisiau moch. Roedd Pris yr Holl Foch (APP), Manyleb yr UE, ym Mhrydain yn 143.1c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Chwefror. Mae hyn yn 0.9c yn is nag yn yr wythnos flaenorol ac yn 8c yn is na'r pris cyfartalog yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr. Hefyd, mae'r pris cyfartaledd mwyaf diweddar wedi disgyn yn is nag lefelau 2019 am y tro cyntaf eleni (0.7c yn is). Yn yr wythnos yn diweddu 13 Chwefror, nid oedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain nag am berchyll 7kg ar gael.

Lladdwyd cyfanswm o 791,600 o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Ionawr, sef 19.2% yn llai na'r llynedd, a'r nifer isaf oddi ar 2014. Y prif reswm am y gostyngiad oedd bod 181,900 yn llai o foch heb fagu wedi cael eu prosesu yn ystod y mis (19.0% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd) a lladdwyd 28.9% yn llai o hychod a baeddod nag ym mis Ionawr 2020. Roedd pwysau cyfartalog y moch heb fagu yn ystod y mis (90.6kg) yn 4.5kg yn drymach na'r llynedd – a'r trymaf erioed – yn fwy na thebyg am fod moch wedi cael eu cadw'n hirach ar y ffermydd. Er gwaethaf y carcasau trymach, roedd y 72,900 tunnell o borc a gynhyrchwyd yn ystod y mis yn 15% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.